Powys

Bwrdd Iechyd Lleol
Local Health Board
Powys

CYFEIRLYFR

CEWYNNAU GO IAWN POWYS

Cymru Gynhaliol
Ymgyrch Cewynnau Go Iawn

NHS
WALES
GIG
CYMRU

Cynnwys

		Tudalen
1	Pam dewis cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio?	1
2	Dewis o gewynnau	3
3	Asiantau cewynnau	4
4	Lle i brynu cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio	6

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Llinell Gyngor Cewynnau Cymru ***0845 456 2477***
www.realnappies-wales.org.uk

Desg Gymorth Cyngor Sir Powys ***0845 607 6060***

Croeso i opsiwn gwahanol i gewynnau papur....cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Pam y dylech eu defnyddio? Mae nhw'n well i'r amgylchedd, yn well i'ch babi ac yn well i'ch poced chi.

Mae cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio yn cael eu gwneud allan o ddeunyddiau naturiol. Mae cewyn cotwm, sy'n amsugnol yn naturiol, yn cael ei rhoi mewn gorchudd allanol sy'n gallu anadlu, ac mae'r gorchudd yn cau gyda Velcro neu glecwyr.

Cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio yw'r dewis naturiol. Maent wedi eu gwneud allan o ddeunyddiau naturiol yn bennaf. Mae'n debyg eich bod chi'n mwynhau gwisgo ffibrau naturiol fel cotwm a gwlân, oherwydd eu bod yn gyfforddus, felly pam na ddylai'ch babi eu gwisgo? Gallwch hyd yn oed brynu cewynnau cotwm sydd 100% organig! Beth bynnag fydd eich dewis chi o gewynnau y gellir eu hail ddefnyddio, nid oes unrhyw geliau amsugno cemegol yn cael eu defnyddio ynddynt, fel sy'n cael eu defnyddio mewn cewynnau papur.

Bydd unrhyw dŷ lle mae yna fabi yn creu mwy o wastraff nag arfer, a daw hanner y gwastraff hwn o gewynnau papur. Os ddefnyddiwch gewynnau papur, byddwch yn creu dros 150 o fagiau bin llawn o wastraff. Bydd y rhain yn cyfrannu at y **240 MILIWN** o gewynnau sy'n cael eu taflu allan yng Nghymru bob blwyddyn. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn mynd i gladdfa sbwriel, lle byddant yn cymryd dros gan mlynedd i bydru. Pa mor "tafladwy" yw hynny?!

Bydd pecyn o gewynnau y gellir eu hail ddefnyddio yn para o enedigaeth y babi hyd nes y bydd yn defnyddio potyn, ac mae eu prisiau'n dechrau o £135. Cymharwch hyn â'r cyfanswm sy'n cael ei wario ar gewynnau papur...byddwch yn arbed dros £600 ar gyfartaledd!

Er y gallwch brynu'r cewynnau'n unigol, y ffordd fwyaf cyffredin yw eu prynu mewn pecynnau. Gallwch brynu pecynnau cyfan, sy'n cynnwys cewynnau ar gyfer yr holl gyfnod rhwng genedigaeth a defnyddio potyn, neu gallwch brynu pecynnau o feintiau gwahanol. Mae nifer o gyflenwyr yn gwneud "pecynnau prawf", sy'n rhoi cyfle i chi drio gwahanol fathau o gewynnau cyn eu prynu.

Mae pris pecynnau i fabanod newydd-anedig yn dechrau o £78, pecynnau i fabanod hŷn yn dechrau o £65, a phecynnau sy'n para o enedigaeth y babi hyd nes y bydd yn defnyddio potyn yn dechrau o £135 (h.y. £2.60 yr wythnos). Er mwyn i chi allu cymharu pris y mathau gwahanol o gewynnau, rydym wedi cynnwys amcangyfrif o brisiau pob math ar dudalen 4. Cofiwch, bydd unrhyw un ohonynt yn rhatach na chewynnau papur!

Faint i'w prynu?

Rydym yn argymell y bydd angen 18 – 24 o bob maint arnoch (digon am 2-3 o ddiwrnodau yn defnyddio 6-12 o gewynnau bob dydd) – newydd-anedig a chyffredin, ynghyd â 4 lapyn ym meintiau newydd-anedig, bach a chyffredin. Bydd angen leinwyr arnoch hefyd – naill ai rhai y gellir eu golchi i ffwrdd neu leinwyr cnu y gellir eu hail ddefnyddio.

Angen mwy o wybodaeth neu help? Cysylltwch â'ch asiant cewynnau agosaf, a fydd yn falch o allu'ch helpu. Mae manylion y rhain ar dudalen 4.

Mae angen golchi cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Gallwch wneud hyn adref, neu gallwch ddefnyddio un o'r gwasanaethau golchi cewynnau.

Gallwch olchi'r cewyn yn eich peiriant golchi ar 60 °C, felly nid oes angen eu golchi mewn dŵr berwedig. Mewn gwirionedd, nid oes angen socian y cewynnau o gwbl. Gallwch eu storio mewn bwced sych â chaead, a'u golchi pob cwpl o ddiwrnodau. Yn amlwg, dylech rinsio unrhyw fudreddi i ffwrdd yn gyntaf. Fodd bynnag, rydym yn argymell eich bod yn socian cewynnau babanod newydd-anedig, a gallwch ychwanegu finegr gwyn, olew coeden de, halen neu ficarbonad soda i leihau'r staenio.

Nid oes rhaid golchi lapynnau (wraps) sydd ar wahân i'r cewyn bob tro. Os nad ydynt yn fudr, tynnwch liain drostynt, ac yna gallwch eu hail ddefnyddio. Mae cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio a chewynnau poced yn cael eu golchi yn yr un modd ag y disgrifiwyd uchod (gweler dros y dudalen am ddisgrifiadau o'r gwahanol fathau o gewynnau).

Gallwch ddefnyddio unrhyw ddull i sychu'r cewyn a'r lapyn, ond bydd golau'r haul yn diarogli, yn diheintio ac yn gwynnu'r cewynnau cotwm yn naturiol!

Yn wahanol i gewynnau papur, mae cewynnau go-iawn yn teimlo'n wlyb i gyffwrdd â hwy, ond nid yw wrin yn berygl i groen y babi. Mae wrin yn niwtral, felly nid yw'n achosi brech cewynnau.

Nappy launderies – Gwasanaeth golchi cewynnau

Mae dewis arall ar gael i rieni yng Ngogledd Sir Drefaldwyn sy'n awyddus i ddefnyddio cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Os nad ydynt eisiau golchi eu cewynnau eu hunain, mae'n bosibl iddynt ddefnyddio gwasanaeth golchi cewynnau newydd o'r enw 'Baby First', sydd wedi'i leoli yn Wrecsam.

Bydd 'Baby First' yn dod â chewynnau cotwm wedi'u golchi i'ch drws ar yr un amser bob wythnos, ac yn casglu'ch cewynnau budron ar yr un pryd. Mae'r cewynnau ar gael mewn amrywiaeth o feintiau sy'n addas ar gyfer babanod newydd-anedig hyd at blant bach, ac mae trôns hyfforddi ar gael i fabanod hyn. Mae'r holl gewynnau yn cael eu golchi i safonau ysbytai llym, ac mae ansawdd y golchi yn cael ei archwilio. Maent hefyd yn cynnig cewynnau papur sy'n eco-gyfeillgar ar gyfer yr adegau hynny pan fyddwch oddi cartref.

Ar ôl i chi gofrestru ar gyfer y gwasanaeth, byddwch yn derbyn gwasanaeth prawf am 2 wythnos, bin cewynnau diarogl, bag dillad y gellir ei olchi, 6 lapyn cewynnau a chyflenwad o gewynnau cotwm fflat, ynghyd â leinwyr pydradwy, llieiniau glanhau (baby wipes) pydradwy, a thiwb o eli cewynnau 'Weleda' am £35. Ar ôl hyn, bydd pris gwasanaeth wythnosol yn dechrau o £8 yr wythnos.

Am ragor o fanylion ffoniwch Tracey ar 01978 664545 neu e-bostiwch info@babyfirst.co.uk

Moulds and wraps as above – **Am brisiau cewynnau plyg parod a lapynnau, gweler uchod.**

Mae yna bedwar math gwahanol o gewynnau y gellir eu hail ddefnyddio – cewynnau fflat, cewynnau wedi eu siapio, cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio a chewynnau poced.

Cewynnau fflat (sydd weithiau'n cael eu galw'n gewynnau plyg parod) – yn cynnwys tair elfen – cewyn, lapyn a leiniwr

Mae cewynnau fflat yn cynnwys haenau amrywiol o gotwm, wedi eu gwnïo'n petryal mawr, sydd fel arfer â haen mwy trwchus yn y canol. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw plygu'r cewyn yn dri, rhoi'r lapyn yn y cewyn, a'i rhoi ar y babi. Mae leiniwr y cewyn yn cael ei rhoi rhwng y cewyn a phen ôl y babi. Mae hylifau, ond nid solidau, yn gallu treiddio trwy'r leiniwr, gan ei wneud yn hawdd i godi'r solidau a'u golchi i ffwrdd. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio leinwyr papur, ond mae leinwyr y gellir eu hail ddefnyddio ar gael hefyd. Mae'r cewyn a'r lapyn yn cael eu golchi yn ôl y cyfarwyddiadau ar dudalen 2. Gallwch brynu cewynnau mewn meintiau gwahanol, yn ôl eich anghenion chi. Mae'r lapynnau yn cau naill ai efo Velcro neu glecwyr.

- **Cewynnau fflat yw'r opsiwn rhataf, a'r rhain sy'n sychu cyflymaf.** Mae pris cewynnau fflat yn dechrau o £1, a phris lapynnau yn dechrau o £5.99. Mae pris rholiau o leinwyr papur yn dechrau o £1 a phris leinwyr y gellir eu hail ddefnyddio yn dechrau o £1 yr un.

Cewynnau wedi eu siapio – yn cynnwys tair elfen – cewyn, lapyn a leiniwr

Mae cewynnau wedi eu siapio yn mynd yn syth i'r lapyn, yna'n cael eu rhoi ar y babi. Defnyddir leiniwr cewyn yn yr un modd â chewyn fflat (uchod). Mae cewynnau wedi eu siapio a'r lapynnau yn cael eu golchi yn ôl y cyfarwyddiadau ar dudalen 3. Gallwch brynu cewynnau mewn meintiau gwahanol, yn ôl eich anghenion chi. Mae fersiynau un-maint ar gael hefyd. Gellir addasu'r rhain i dyfu gyda'ch babi (fel arfer maent yn addas rhwng 7lb a 30lb). Gall y rhain fod yn fwy economaidd, ac maent yn arbennig o ddefnyddiol os oes gennych fwy nag un plentyn yn gwisgo cewynnau ar yr un pryd.

- **Mae Cewynnau wedi eu siapio yn fwy cyfleus na rhai plyg parod, ond maent yn ddrytach, ac yn cymryd mwy o amser i sychu.** Mae pris cewynnau wedi eu siapio yn dechrau o £7.50 a phris lapynnau yn dechrau o £5.99. Am bris leinwyr, gweler uchod.

Cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio – yn cynnwys dwy elfen – cewyn a leiniwr

Mewn cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio, mae'r lapyn yn cael ei wnïo i'r cewyn. Oherwydd hyn, dim ond un darn sydd, a gellir ei rhoi yn syth ar y babi. Mae leiniwr cewyn yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd â chewynnau fflat a chewynnau wedi eu siapio (uchod). Mae'r cewyn yn cael ei olchi yn ôl y cyfarwyddiadau ar dudalen 3. Gallwch brynu cewynnau mewn meintiau gwahanol, yn ôl eich anghenion chi, ac maent yn cau naill ai efo Velcro neu glecwyr.

- **Y cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio yw'r rhai mwyaf cyfleus, ond y rhain sy'n cymryd yr amser hiraf i sychu. Y rhain hefyd yw'r drytaf, ac nid ydynt yn para mor hir oherwydd bod y lapyn yn cael ei olchi bob tro y mae'r cewyn yn cael ei newid. Mae'r rhain yn boblogaidd gyda phobl sy'n darparu gofal plant, oherwydd bod modd eu newid yn yr un modd â chewyn papur. Daw rhai ohonynt gyda leiniwr wedi ei wnïo i fewn.** Mae pris cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio yn dechrau o £8. Am bris leinwyr, gweler uchod.

Cewynnau 'poced' – yn cynnwys dwy elfen – cewyn a lapyn cnu

Gall cewynnau poced fod yn debyg i gewynnau wedi eu siapio a'u ffitio, ond maent yn deneuach, ac mae yna boced rhwng yr haen cnu mewnol ac allanol – mae hon yn cael ei stwffio â phadin er mwyn gwneud y cewyn yn amsugnol (gan ddefnyddio plygion parod/ sgwariau mwslin, neu hyd yn oed hen dywelion wedi eu torri). Mae rhai cewynnau poced yn gweithio'r un ffordd, ond nid oes ganddynt orchudd gwrth-ddŵr cysylltiedig, a bydd angen lapyn ar wahân.

- **Mae cewynnau poced yn sychu llawer cyflymach na chewynnau wedi eu siapio a'u ffitio, ond maent yn eithaf drud.** Mae pris cewynnau poced yn dechrau o £9. Am brisiau cewynnau plyg parod a lapynnau, gweler uchod.

Asiantau Cewynnau

Mae asiantau cewynnau yn gwerthu cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Mae rhai o'r asiantau hyn yn annibynnol, ac mae rhai ohonynt yn gysylltiedig ag un cwmni (sy'n cyflenwi naill ai un math yn unig o gewynnau, neu gewynnau o fathau amrywiol). Mae'r asiantau yn gwerthu amrywiaeth eang o gewynnau go iawn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig pecynnau prawf o gewynnau. Gall yr asiantau gynnig amrywiaeth o wasanaethau yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol chi. Bydd rhai ohonynt yn rhoi cyngor dros y ffôn, gan gymryd archebion dros y ffôn â'u postio atoch. Bydd eraill yn ymweld â'ch cartref ac yn dosbarthu'r archeb i chi. Mae ein holl asiantau yn famau a chanddynt brofiad o ddefnyddio cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio.

Manylion cyswllt yr asiant	**Ardal**	**Cynhyrchion**
Catherine Greensted 01686 650484	Wedi'i lleoli yn Nhregynon, ac yn gweithio ar draws radiws o 20 milltir.	Asiant Cewynnau Annibynnol – yn gweithio i nifer o gwmnïoedd
Fiona Moulton 01654 703151	Wedi'i lleoli ym Machynlleth, ac yn gweithio ar draws radiws o 20 milltir.	Nwyddau 'Eco-Babes'
Sue Funnell 01597 829313 susanfunnell@hotmail.com	Wedi'i lleoli yn Llandrindod, ac yn gweithio ar draws Sir Faesyfed, Gogledd Sir Frycheiniog a hyd at Y Drenewydd.	'Eco-Babes' a 'Natures Babies'. Pecynnau prawf ar gyfer babanod newydd anedig i'w llogi o £4 yr wythnos
Sarah Hughes 07753 814581 brecon.nappies@tiscali.co.uk	Wedi'i lleoli yn Aberhonddu, ac yn gweithio ar draws canol a gogledd Sir Frycheiniog.	Nwyddau 'Lollipop'
Linda Cook 01443 691322 linda.cook@tiscali.co.uk	Wedi'i lleoli ym Merthyr Tudful, ac yn gweithio ar draws De Sir Frycheiniog.	Nwyddau 'Lollipop'

Rhieni lleol sy'n gallu rhoi cyngor

Mae nifer o rieni sydd wedi defnyddio cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio yn hapus i roi cyngor a gwybodaeth. Mae croeso i chi roi galwad iddynt. Os hoffech i'ch enw chi gael ei ychwanegu at y rhestr, cysylltwch â'r rhif y tu mewn i'r clawr.

Manylion cyswllt	**Ardal**
Frances Butler 01691 828297	Yn byw yn Llanymynech ac yn hapus i roi cyngor dros y ffôn
Claudine Goganian c/o Eco Dyfi 01654 703965	Yn byw yn Nyffryn Dyfi ac yn hapus i roi cyngor dros y ffôn, neu i gwrdd â phobl yn Ecodyfi
Grace Bailey 01970 87 11 88	Yn byw yn Nyffryn Dyfi ac yn gallu ymweld â phobl yn eu cartrefi neu yn Ecodyfi
John Hough **& Elaine Standen** 01597 860402	Yn byw ger Y Bontnewydd-ar-Wy ac yn hapus i roi cyngor dros y ffôn

Lle i brynu cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio

Mae'r lleoedd sy'n gwerthu cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio yn ehangu ac yn newid yn gyson. Fodd bynnag, dyma ddetholiad o lle y gallwch brynu amrywiaeth eang o gewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Rydym wedi defnyddio'r allwedd ganlynol i ddangos pa gyfleusterau sy'n cael eu cynnig:

LI: Llyfryn ar gael
G: Gwefan ar gael
S: Siopa dros y we ar gael
M: Man gwerthu
P: Pecynnau prawf ar gael
A: Yn rhedeg rhwydwaith o asiantau cewynnau
Ff: Gwasanaeth archebu trwy'r post neu dros y ffôn ar gael

Cyflenwr cewynnau	Manylion cyswllt	Nwyddau a phrisiau
Baby First Nappy Company **LI G S M P Ff**	Uned D7, Dutton Road Parc Busnes Redwither Wrexham, LL13 9UL F: 01978 664545 E: info@babyfirst.co.uk W: www.babyfirst.co.uk	Yn ogystal â chynnig gwasanaeth golchi cewynnau, mae 'Baby First' yn gwerthu cewynnau a nwyddau naturiol eraill i fabanod o'u safle yn Wrecsam. Mae 'Baby First' yn gwerthu amrywiaeth eang o gewynnau ynghyd ag eitemau eraill. Gallant ddod i roi arddangosfeydd i chi yn eich cartref mor bell i'r de â'r Drenewydd. Maent hefyd yn llogi cewynnau, ac yn gadael i chi logi cewynnau tra'ch bod yn penderfynnu os ydych yn mynd i'w prynu.
Bambino Mio **LI G S P A Ff**	12 Staveley Way, Brixworth, Northants, NN6 9EU F: 01604 883777 F: 01604 883666 E: sales@bambino.co.uk W: www.bambino.co.uk	'Bambino Mio' yw un o'r mathau mwyaf poblogaidd o gewynnau. Mae nifer o gynlluniau gwahanol ar gael, ac maent hefyd yn gwerthu llawer o eitemau eraill sy'n gysylltiedig â chewynnau.

Cyflenwr cewynnau	Manylion cyswllt	Nwyddau a phrisiau
Boots LI G S M	Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, Y Drenewydd a'r Trallwng G: www.boots.com	Mae Boots yn gwerthu ei brand ei hun o gewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Fodd bynnag, nid yw'r rhain ar gael i'w prynu yn eu siopau ym Mhowys eto! Mae'n bosibl i chi eu harchebu, ac fe fydd yn cymryd tua wythnos iddynt gyrraedd y siop. Fel arall, mae modd i chi eu prynu o'u gwefan. Mae modd prynu cewynnau 'Cotton Bottom' yma hefyd.
Cheeky Rascals LI G P Ff	1 Stone Barn, The Brows, Farnham Road, Liss, Hampshire GU33 6JG F: 0870 873 2600 F: 0870 873 2800 E: sales@cheekyrascals.co.uk G: www.cheekyrascals.co.uk	Mae 'Cheeky Rascals' yn gwerthu system gewynnau Galfies, ynghyd ag amrywiaeth o nwyddau eraill i fabanod. Mae pecynnau prawf ar gael o £20.
Cuddlebabes LI G S Ff	22 The Stray, South Cave, East Yorksire HU15 2AL F: 01430 425257 F: 01430 421931 E: enquiries@cuddlebabes.co.uk G: www.cuddlebabes.co.uk	Mae 'Cuddlebabes' yn gwmni annibynnol sy'n cyflenwi cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio, ac nid ydynt yn gwneud unrhyw gewynnau eu hunain. Maent yn cynnig system hyblyg o becynnau prawf 'pick and mix' gyda gostyngiad o 5%, a thâl post am ddim. Mae ganddynt bolisi dychwelyd rhad ac am ddim, cyn belled â bod y nwyddau'n cael eu hanfon yn ôl heb eu defnyddio/heb eu golchi, ac o fewn tri mis o'u prynu. Gallwch naill ai gyfnewid yr eitem, derbyn credyd neu gael eich arian yn ôl.
Cotton Bottoms LI G S P Ff	7-9 Water Lane Ind Estate, Water Lane, Storrington, West Sussex, RH20 3XX F: 08707 778899 E: sales@cottonbottoms.co.uk G: www.cottonbottoms.co.uk	Mae 'Cotton Bottoms' yn gwneud cewynnau fflat, lapynnau polyester a chotwm a nifer o eitemau eraill. Maent hefyd yn gwerthu amrywiaeth o becynnau prawf, pecynnau cychwynnol a phecynnau sy'n cynnwys cewynnau ar gyfer yr holl gyfnod rhwng genedigaeth a defnyddio potyn.

LI: Llyfryn ar gael; **G:** Gwefan ar gael; **S:** Siopa dros y we ar gael; **M:** Man gwerthu; **P:** Pecynnau prawf ar gael; **A:** Yn rhedeg rhwydwaith o asiantau cewynnau; **Ff:** Gwasanaeth archebu trwy'r post neu dros y ffôn ar gael

Cyflenwr cewynnau	Manylion cyswllt	Nwyddau a phrisiau
Deanna's Baby Siop M	Neuadd y Farchnad, Y Drenewydd, SY16 2PQ F: 07773 599080	Ar hyn o bryd, mae 'Deanna's Baby Shop' yn gwerthu cewynnau teri. Fodd bynnag, mae disgwyl iddynt ddechrau gwerthu detholiad o gewynnau modern y gellir eu hail ddefnyddio yn fuan.
Eco-Babes LI G S P A Ff	17b Paradise Road, Downham Market, Norfolk, PE38 9HS F: 01366 387851 G: www.eco-babes.co.uk	Mae 'Eco-Babes' yn gwerthu amrywiaeth eang o gewynnau, ynghyd ag eitemau eraill. Maent yn rhedeg trwy rwydwaith o dros 60 o asiantau cewynnau. Mae pecynnau prawf ar gael i'w llogi ar gyfer cyfnod o bythefnos trwy ffonio 01833 640400.
Ellie Nappy Co LI G S Ff	PO Box 16, Ellesmore Port, CH66 2BE F: 0151 200 5012 E: info@elliepants.co.uk G: www.elliepants.co.uk	Mae 'Ellie Pants' yn gwneud gorchuddion sy'n dal d_r ar gyfer cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Er bod y gorchuddion wedi'u cynllunio i'w defnyddio gyda chewynnau fflat, mae modd eu defnyddio gyda'r rhan fwyaf o gewynnau y gellir eu golchi. Mae 'Ellie Pants' yn gwerthu cewynnau fflat a lapynnau gwlân sydd wedi cael eu gwneud ym Mhrydain hefyd. Mae pecynnau prawf ar gael o £15. Mae nwyddau 'Ellie Pants' ar gael oddi wrth asiantau cewynnau annibynnol hefyd.
Ethos Baby Care LI G S P Ff	37 Chandos Road, Bryste, BS6 6PQ E: enquiries@ethosbaby.com G: www.ethosbaby.com Mio'	Mae 'Ethos Baby' yn gyflenwr annibynnol sy'n gwerthu amrywiaeth o gewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Mae'r holl nwyddau sy'n cael eu gwerthu ganddynt wedi cael eu dewis oherwydd pa mor effeithiol ydynt a'u pris. Mae'r nwyddau sydd ar gael yn cynnwys y 'Motherease One Size', cewynnau fflat 'Bambino a chewynnau organig y gellir eu hail ddefnyddio 'Snug-to-Fit'. Mae pecynnau prawf ar gael, ynghyd â phecynnau sy'n cynnwys cewynnau ar gyfer yr holl gyfnod rhwng genedigaeth a defnyddio potyn.
Green Baby LI G S M P Ff	345 Upper Street, Islington, Llundain, N1 0PD F: 0207 226 4345 G: www.greenbaby.com	Mae'r siop hon yn Llundain yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau babi sy'n eco-gyfeillgar, yn cynnwys cewynnau y gellir eu hail ddefnyddio. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o gewynnau o frandiau amrywiol, yn ogystal â'u brand hwy. Mae eu brand hwy hefyd ar gael trwy gyflenwyr eraill, fel 'Lollipop' ac 'Eco-babes'. Mae pecynnau prawf ar gael o £17.50.

LI: Llyfryn ar gael; G: Gwefan ar gael; S: Siopa dros y we ar gael; M: Man gwerthu; P: Pecynnau prawf ar gael; A: Yn rhedeg rhwydwaith o asiantau cewynnau; Ff: Gwasanaeth archebu trwy'r post neu dros y ffôn ar gael

Cyflenwr cewynnau	Manylion cyswllt	Nwyddau a phrisiau
Green Fibres **LI G S M P Ff**	99 High Street, Totnes, Dyfnaint, TQ9 5PS F: 01803 868001 F: 01803 868002 E: mail@greenfibres.com G: www.greenfibres.com	Mae 'Green Fibres' yn arbenigo mewn nwyddau a dillad sydd wedi'u gwneud o gotwm organig, lliain organig, cywarch (hemp), gwlân organig a sidan sydd heb ei drin, yn cynnwys cewynnau wedi'u gwneud o gotwm organig a lapynnau o wlân organig. Mae pecynnau prawf ar gael o £14 a phecynnau cychwynnol o gewynnau ar gael o £95.
Huggababy **LI G M P Ff**	19-21 Canolfan Prya, Talgarth, Powys, LD3 0DS F: 01874 711629 F: 01874 711037 E: margaret@huggababyco.uk G: www.huggababy.co.uk	Mae 'Huggababy' yn gwneud eu cynhyrchion eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys cewyn y gellir ei ail ddefnyddio. Maent yn gwmni lleol, ac yn cyflenwi'r sampl rhad ac am ddim ym Mhowys! Mae pris pecynnau o gewynnau yn dechrau o £65.
Kittykins **G I Ff**	Southerly, Church Road, Heveningham, Suffolk, IP19 0EA F: 01986 798939 E: contact@kittykins.co.uk G: www.kittykins.co.uk	Yn ogystal â gwerthu amrywiaeth o gewynnau o fathau gwahanol, mae 'Kittykins' yn gwerthu eu cewyn fflat eu hunain, sydd wedi'i wneud o 100% cotwm. Maent yn gobeithio cynnig pecynnau prawf yn y dyfodol, ond ar hyn o bryd, maent yn fodlon derbyn nwyddau yn ôl, cyn belled â'u bod heb eu defnyddio.
Little Green Earthlets **LI G S P A Ff**	Units 1-3 Stream Farm, Chiddingly, East Sussex, BN8 6HG F: 01825 873301 F: 01825 873303 G: www.earthlets.co.uk	Mae'r cwmni hwn yn gwerthu amrywiaeth o gewynnau fflat, cewynnau teri a chewynnau golchadwy 'Motherease', ynghyd â chewynnau papur eco-gyfeillgar a nifer o nwyddau eraill i fabanod.

LI: Llyfryn ar gael; **G:** Gwefan ar gael; **S:** Siopa dros y we ar gael; **M:** Man gwerthu; **P:** Pecynnau prawf ar gael; **A:** Yn rhedeg rhwydwaith o asiantau cewynnau; **Ff:** Gwasanaeth archebu trwy'r post neu dros y ffôn ar gael

Cyflenwr cewynnau	Manylion cyswllt	Nwyddau a phrisiau
Lollipop Children's Products LI G S P A Ff	Rhadpost SWB40893, Penzance, Cernhw, TR20 8YX F: 01736 799512 F: 01736 794886 E: sales@teamlollipop.co.uk G: www.teamlollipop.co.uk	'Lollipop' yw un o'r cyflenwyr cewynnau mwyaf, ac maent yn gwerthu amrywiaeth enfawr o gewynnau ac eitemau eraill. Maent yn cynhyrchu eu cewyn eu hunain – y 'Rainbow Nappy', ac yn rhedeg y rhwydwaith mwyaf o asiantau cewynnau. Mae eu pecynnau prawf yn cynnwys un cewyn ac un lapyn. Os byddwch yn penderfynu i brynu ganddynt, byddwch yn cadw'r cewyn hwn. Os na fyddwch, rhaid i chi anfon y cewyn yn ôl mewn amlen RHADBOST.
Modern Baby LI G S P A Ff	Barnsley, 70 Tamworth Road, Hertford, Herts SG13 7DN F: 0800 093 1500 F: 01992 536473 E: sales@modernbaby.co.uk G: www.modernbaby.co.uk	Mae 'Modern Baby' yn gwneud cewynnau wedi'u siapio, a gorchuddion cewynnau sy'n cael eu gwneud yn Ewrop gan fusnes teuluol sydd â dros 10 mlynedd brofiad o wneud cewynnau. Mae'r ffabrig yn cael ei brintio gan o ddefnyddio lliwiau safonol ECO-100. Mae'r cwmni hwn yn gwerthu cewynnau fflat a nifer o eitemau eraill hefyd, yn ogystal â phethau ymolchi naturiol i fabanod a rhieni. Mae pecynnau prawf ar gael o £8.50. Mae cewynnau 'Modern Baby' ar gael gan nifer o gyflenwyr eraill.
Nappies by Minki LI G S A Ff	Timbukthree, New Tolsta, Isle of Lewis, HS2 0NN F: 01851 890402 G: www.nappiesbyminki.co.uk	Diwydiant bwthyn wedi'i leoli yn yr Hebrides Allanol. Maent yn cynhyrchu amrywiaeth o gewynnau yn cynnwys 'Minki Nappy', 'Minki Wrap' a 'Minki Flippa'.
Nappy Nation LI G P Ff	33 Brockhampton Road, Kingston, Surrey, KT2 5JU F: 0793 096 4582 E: info@nappy-nation.com G: www.nappy-nation.com	Mae 'Nappy Nation' yn gwerthu eu cewynnau fflat a'u cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio eu hunain. Mae pecynnau prawf ar gael o £15 mewn dau faint, a faint, a chewynnau ail law ar gael o £6 yr un.

LI: Llyfryn ar gael; **G**: Gwefan ar gael; **S**: Siopa dros y we ar gael; **M**: Man gwerthu; **P**: Pecynnau prawf ar gael; **A**: Yn rhedeg rhwydwaith o asiantau cewynnau; **Ff**: Gwasanaeth archebu trwy'r post neu dros y ffôn ar gael

Cyflenwr cewynnau	Manylion cyswllt	Nwyddau a phrisiau
Natural Collection LI G S P Ff	Eco House, 19a Monmouth Place, Bath, BA21 2AY F: 0870 331 3333 G: www.naturalcollection.com	Mae 'Natural Collection' yn gwerthu system o gewynnau y gellir eu hail ddefnyddio sydd wedi'u gwneud o 100% cotwm gwlanog sydd heb ei wynnu. Mae eu pecynnau prawf yn cynnwys cewyn, darn i'w fewnosod, gorchudd a rhôl o leinwyr papur. Maent ar gael am £15 mewn maint bach, mawr neu fawr iawn.
Naturally Nappies LI G S P Ff	50b High Street, Shrivenham, Swindon, SN6 8AA F: 0845 166 4716 E: orders@naturallynappies.com G: www.naturallynappies.co.uk	Mae'r cwmni hwn yn gwneud y rhan fwyaf o'i fusnes dros y we. Maent yn gwerthu amrywiaeth mawr iawn o gewynnau. Mae yna gynllun 'Try Before You Buy' sy'n defnyddio cewynnau ail law, a gallwch naill ai brynu'r rhain neu eu hanfon yn ôl a phrynu cewynnau newydd.
Nature Babies G S Ff	Unit 17 Clearview Business Park, 103 Loughborough Road, Quorn, Leicestershire, LE12 8DU F: 01509 621 065/879 E: contact@naturebabies.co.uk G: www.naturebabies.co.uk	Mae 'Nature Babies' yn gwneud amrywiaeth lawn o nwyddau i fabanod. Mae'r rhain yn cynnwys cewynnau teri, cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio a chewynnau poced, ac mae dewis hyfryd o ddefnyddiau gwahanol ar gael Maent hefyd yn gwerthu nifer o nwyddau eraill amrywiol, fel 'Nappi Nippas' ar gyfer cewynnau teri.
Perfectly Happy People LI G S P Ff	1-33 Park Royal Road, Llundain, NW10 7LQ F: 0870 1202018 E: info@phpbaby.com G: www.phpbaby.com	PHP yw prif ddosbarthwyr cewynnau 'Kooshies', sy'n cael eu gwneud yng Nghanada. Mae pecynnau prawf ar gael o £6.50.

LI: Llyfryn ar gael; **G**: Gwefan ar gael; **S**: Siopa dros y we ar gael; **M**: Man gwerthu; **P**: Pecynnau prawf ar gael; **A**: Yn rhedeg rhwydwaith o asiantau cewynnau; **Ff**: Gwasanaeth archebu trwy'r post neu dros y ffôn ar gael

Cyflenwr cewynnau	Manylion cyswllt	Nwyddau a phrisiau
Sam I Am! **LI G S P A Ff**	Besthorpe Road, North Scarle, Lincs, LN6 9EZ F: 01522 778926 E: info@sam-I-am.co.uk G: www.sam-I-am.co.uk	Mae 'Sam I Am!' yn gwerthu amrywiaeth da o gewynnau. Maent hefyd yn gwerthu eu brand eu hunain, sy'n cael ei wneud yn y DG. Mae pecynnau prawf ar gael o £9.95 mewn meintiau bach, canolig a mawr.
Schmidt Natural Clothing **LI G Ff**	Corbiere, Nursery Lane, Nutley, East Sussex, TN22 3NS F: 0845 345 0498 G: www.naturalproducts.co.uk	Mae 'Schmidt Natural Clothing' yn cynnig amrywiaeth o ddillad a nwyddau naturiol yn cynnwys yr 'Organic Cotton and Soft Wool Wraparound Nappy System'.
Snazzypants **LI G S A Ff**	Besthorpe Road, North Scarle, Lincs, LN6 9EZ F: 01522 778440 E: info@snazzypants.co.uk G: www.snazzypants.co.uk	Mae 'Snazzypants' yn gwerthu amrywiaeth da o gewynnau, ynghyd â'u cewynnau wedi eu siapio a'u ffitio a'u cewynnau poced eu hunain.
The Nappy Biz **LI G S A Ff**	2 Angelica Road, Guildford, Surrey, GU2 9GY F: 01483 833640 E: enquiries@thenappybiz.co.uk G: www.thenappybiz.co.uk	Mae'r busnes teuluol hwn yn gwerthu amrywiaeth mawr o gewynnau o ledled y byd, yn cynnwys cewynnau o Ogledd America ac Ewrop. Maent yn gwerthu cewynnau gan frandiau fel Bummis, Disana, Fuzzi Bunz, Imse Vimse, Keester Kovers a Popolini. Maent hefyd yn gwerthu amrywiaeth enfawr o gewynnau wedi'u gwneud ym Mhrydain, yn cynnwys Bambino Mio, Ella's House, Modern Baby, Nappy Nation, Minki, Nature Babies, Sam-I-Am, Snazzypants, Stuffle Nappies a Tots Bots.

LI: Llyfryn ar gael; **G:** Gwefan ar gael; **S:** Siopa dros y we ar gael; **M:** Man gwerthu; **P:** Pecynnau prawf ar gael; **A:** Yn rhedeg rhwydwaith o asiantau cewynnau; **Ff:** Gwasanaeth archebu trwy'r post neu dros y ffôn ar gael

Cyflenwr cewynnau	Manylion cyswllt	Nwyddau a phrisiau
The Nappy Lady G P Ff	16 Hill Brow, Bearsted, Maidstone, Kent, ME14 4AW F: 0845 456 2441 E: info@thenappylady.co.uk W: www.thenappylady.co.uk	Mae 'The Nappy Lady' yn rhoi cyngor cynhwysfawr, ac yn gwerthu cewynnau a nwyddau eraill. Maent yn cynnig gostyngiad o 18% ar becynnau prawf.
Tots Bots Ll G P Ff	Unit 5 Green City, 23 Fleming Street, Glasgow, G31 1PQ F: 0141 550 1514 F: 0141 550 1556 E: info@totsbots.com W: www.totsbots.com	'Tots Bots' sy'n cynhyrchu un o'r cewynnau mwyaf poblogaidd sy'n cael ei wneud yn y DG. Mae 'Tots Bots' yn amrywiaeth o gewynnau brethyn wedi'u siapio a gynhyrchir yn yr Alban o deri meddal nad yw'n cynnwys deunyddiau GM. Dim ond eu nwyddau eu hunain sy'n cael eu gwerthu gan 'Tots Bots'. Fodd bynnag, maent yn cynnig gostyngiad o 25% ar becynnau prawf, sy'n cynnwys un cewyn ac un lapyn. Mae 'Tots Bots' ar gael gan nifer o gyflenwyr eraill hefyd.
Twinkle Twinkle Ll G S P Ff	Beggars Hill Road, Lands End, Twyford, Berkshire, RG10 0UB F: 0118 934 2120 E: info@twinkleontheweb.co.uk W: www.twinkleontheweb.co.uk	Mae 'Twinkle Twinkle' yn rhoi cyngor a chymorth annibynnol ynglŷn â dewis cewynnau cotwm. Maent yn gwerthu amrywiaeth eang o gewynnau go-iawn a chynhyrchion cewynnau eraill y gellir eu golchi, yn cynnwys pob un o'r prif fathau.

Ll: Llyfryn ar gael; **G**: Gwefan ar gael; **S**: Siopa dros y we ar gael; **M**: Man gwerthu; **P**: Pecynnau prawf ar gael; **A**: Yn rhedeg rhwydwaith o asiantau cewynnau; **Ff**: Gwasanaeth archebu trwy'r post neu dros y ffôn ar gael

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu.
Ailgylchwch y llyfryn hwn.